



**Astudiaeth Achos Pori Cadwraeth 2**  
**Coed Crafnant**





## Astudiaeth Achos Pori Cadwraethol 2: Coed Crafnant

### Lleoliad a chefnidir

Mae Coed Crafnant & Dolbebin - a elwir yn gasgliadol yng Nghoed Crafnant - yn warchodfa Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru o oddeutu 48ha i gyd, wedi'i leoli ar lethrau gogledd-orllewin y Rhinogydd yng ngogledd Cymru. Coetir derw'r Iwerydd a llydanddail ("Coedwig law Geltaidd") yw'r cynefin yn bennaf gydag ardaloedd bach o rostir. Dynodir yr ardaloedd coetir hyn fel rhan o ACA Meirionnydd Coed Derw a Safleoedd Ystlumod, ac maent yn arbennig o bwysig i adar coetir, ystlumod pedol llai, a chasgliadau planhigion is.

### Rheolaeth flaenorol a'r problemau a nodwyd

Mae'r coetir wedi'i wahanu o'r Rhinogydd gan waliau cerrig sych, ac mae wedi'i rannu'n fewnol ar ffurf Crafnant a Dolbebin. Mae waliau, strwythurau a llwyfannau diffaith pellach ar y safle - rhai yn gysylltiedig â gwaith mwyngloddio 19eg ganrif a llawer ar gyfer da byw. Mae llafn geifr lled wyllt ar y Rhinogydd wedi cael mynediad i'r safle i raddau amrywiol, a chydag effeithiau amrywiol.

Prynodd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru (YBGGC) Coed Dolbebin ym 1972 a Chrafnant ym 1982, ac atgyweirio'r ffiniau fel nad oes pori tresmasu gormodol yn digwydd.

Mae bron i 100 o flychau nythu ar draws y safle, ac fe gofnodwyd y Gwybed Brith, Tin Gochiaid a Thelorion y Cnau ynghyd â'r Titw mawr a glas yno.

Ffactor pwysig i'w ystyried yw blaenoriaethau a allai wrthdaro - er ei bod yn bwysig adfywio coetir, cynnal canopi caeedig, ac ehangu i fyny'r lethrau, mae'r un adfywiad yn bygwth y planhigion isaf ac mae'r safle yn uchel ei pharch a nodedig am y rhain. Yn yr un modd, gallai mynediad geifr gwyllt achlysurol fod yn fuddiol ond os na chaiff ei reoli gall ddod yn fygythiad i'r cynefin. Fe ddylai defnyddio llai o anifeiliaid mwy gael effaith fwy rheoledig; gydag effaith gorfforol anifeiliaid mwy yn sathru ardaloedd o redyn trwchus ac yn caniatáu i olau gyrraedd fflora'r ddaear.

### Ail gyflwyno pori: gofynion a chostau

Y bwriad oedd defnyddio gwartheg i bori ar y safle, oherwydd maint eu corff mwy a'u heffeithiau sathru, a'u dull o bori. Fodd bynnag, gellir cyrchu'r safle ar draws tir fferm cyfagos gyda phryderon bio ddiogelwch posibl. Gall merlod gael effaith sathru debyg, ac maent yn opsiwn symlach o ran symudiadau a rheoliadau. Mae cyfle yma hefyd i gefnogi bridiau prin brodorol fel merlod y Carneddau.

Digwyddodd ychydig bach o waith tynnu coed ymaith ar hyd y ffens derfyn er mwyn galluogi mân atgyweiriadau. Gosodwyd giât fach yn y wal rhwng Crafnant a Dolbebin. Adeiladwyd lloc 5m x 5m i gynorthwyo monitro cymharol yn y dyfodol. Yn olaf, dyluniwyd ac adeiladwyd corlan gadarn, a fyddai'n addas ar gyfer merlod lled-wyllt yn y dyfodol. Cyfanswm cost y gwaith hwn oedd £7,275 heb gynnwys TAW ar gyfer adeiladu a mynediad, a £500 tuag at y gwaith coed. Mae gwaith pellach wedi'i wneud heb arian Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru.

Mae llwybr troed caniatool ar draws y safle, a mynediad gwirfoddol gan wirfoddolwyr i fonitro'r blychau nythu, felly darparwyd arwyddion "pori yma".



## Blwyddyn Pori 1

Mae Coed Crafnant yn cael ei bori dros aeaf 2020/21 gyda phâr o ferlod Shetland er mwyn dechrau asesu'r effaith. Fe'u gwelwyd yn dewis glaswellt o'r twmpathau o fwsogl, ac maen nhw wedi dechrau gwneud traciau trwy standiau rhedyn. Fodd bynnag, mae'r effaith sathru yn gymesur â'u maint bach o'i gymharu â gwartheg. Maent yn cynnal cyflwr corfforol rhagorol ac iechyd cyffredinol - mae hyn yn werth ei nodi gan nad oes gennym yr opsiwn o ddarparu mwynau llyfu yn fan hyn, rhag ofn y byddai llyfu o'r fath yn annog tresmasu pellach gan y geifr.

Ym mis Chwefror 2021, arweiniwyd y merlod o Grafnant i Dolbebin dros rai o'r tir mwy garw a mwy serth. Roedd eu petruster eithafol yn dangos nad ydyn nhw'n hyderus yn archwilio'r safle cyfan, felly nid ydynt yn borwyr delfrydol ar gyfer y tymor hwy yng Nghrafnant. Fodd bynnag, mae eu natur dda a'u perthynas â phobl yn golygu eu bod yn haws i'w trin, yn hytrach, er enghraifft, na cheisio bugeilio merlod lled-wyllt.

## Monitro

Mae pob safle prosiect yn cynnwys Safonau Monitro Cyffredin (SMC), ac mae arolygon adar bridio, a phlanhigion is yn cael eu gwneud cyn i unrhyw waith ddechrau er mwyn sefydlu llinell sylfaen. Bydd y rhain yn cael eu hail adrodd ar ddiwedd y prosiect gan roi bwlch 6- neu 7 mlynedd. Disgwylir y bydd rhai nodweddion yn araf i ymateb i'r newidiadau rheoli.

Yn y tymor canolig, bydd ffotograffiaeth pwynt sefydlog o leiaf ddwywaith y flwyddyn yn arwain y gwaith cynllunio ar gyfer y tymor pori canlynol, a bydd yn creu darlun manylach o newidiadau dros amser.

Yn y tymor byr, mae arsylwadau gan y porwr, warden y safle, a'r swyddog pori yn dylanwadu ar benderfyniadau ar unwaith o fewn fframwaith y tymor a gynlluniwyd. Er enghraifft, pryd i symud yr anifeiliaid i'r gydran nesaf, neu os yw'r tywydd yn golygu bod angen iddyn nhw gael eu symud oddi yno yn gynnar.

Yn ogystal, mae yna blot eithriedig o fewn Coed Crafnant i alluogi i gynefin pori a heb ei bori gael eu cymharu.

## Yr heriau disgwylidig

Mae natur a thir y gwarchodfeydd hyn yn golygu nad oes llawer o gontractwyr yn barod i ddyfynnu am y gwaith. Fe wnaethon ni ddewis defnyddio contractwr profiadol iawn, o ystyried faint o fanwl gywirdeb sy'n ofynnol i weithio o amgylch boncyffion coed a chreigiau penodol.

Roeddem yn gobeithio defnyddio da byw'r cymydog i ddechrau, ond fe wnaethant wrthod gan nodi eu pryderon am y tir serth a chreigiog. Yna roedd yn her dod o hyd i borwr a fyddai'n gallu gwirio eu hanifeiliaid yn aml oherwydd lleoliad y safle. Fel rhywbeth i lenwi'r bwlch, mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru a staff y prosiect yn helpu i wirio'r merlod Shetland; a bydd addasiad bach i gyllideb y prosiect ar gyfer y safle hwn yn galluogi taliadau cymorth pori uwch.

Pwynt bach i'w nodi o ran gweinyddu - mae'r defnydd o Unedau Da Byw yn amherffaith oherwydd merlod o wahanol feintiau yn enwedig. Felly, mae'n well cael ystod o faint o ran y fuches e.e. "3 - 5 unigolyn" a hefyd ymgorffori rhywfaint o hyblygrwydd i ymateb i amodau cynefinoedd sy'n newid.

Mae'r broses gydsynio ar gyfer safleoedd gwarchoddedig yn drylwyr iawn, ac yn yr achos hwn roedd angen arolygon manwl o ganghennau a cherrig penodol lle'r oeddem am osod giât. Mae angen cyfrif am yr amser a'r gost ychwanegol hon mewn unrhyw brosiectau tebyg.



## Heriau annisgwyl

Cymerodd y blaenoriaethau safle sy'n gwrthdaro gryn amser i weithio drwyddynt, ac fe ohiriwyd dechreuad ein gwaith yng Nghrafnant. Yn ffodus, dim ond ar ran fach o hyd y prosiect ei hun oedd yr oedi, h.y. mae digon o amser o hyd i ddangos effaith gadarnhaol ar nodweddion y coetir.

Cysylltwyd â cheidwad merlod "domestig" lleol, a mynegodd fwy o bryder ynghylch gwenwyndra rhedyn nag am natur y tir. Er y gwyddys ei fod yn wenwynig, prin yw'r risg o amlyncu cyn belled â bod digon o fwyd arall ar gael. Mae hyn hefyd yn berthnasol i lystyfiant anaddas arall fel mes. Fodd bynnag, mae hyn yn rhwystr arall i rai ceidwaid anifeiliaid ac fe ddylid ei gadw mewn cof.

Amharodd pandemig Covid-19 ar waith ar y safle, gyda cholli cyfleoedd monitro tymhorol a gwaith dan gontract wedi'i ohirio am sawl mis. Arweiniodd yr oedi hwn at adnewyddu caniatâd Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) am flwyddyn arall, a'r penderfyniad i ddefnyddio merlod Shetland dros y gaeaf fel peilot.

Cafodd pandemig Covid-19 effaith ar reoli geifr lled wyllt yn lleol hefyd, gyda grŵp mawr (70 - 80) o eifr i'w gweld yng Nghoed Dolbebin ym mis Rhagfyr 2020. Er bod ychydig bach o bori tresmasu wedi'i "ymgorffori" yn ôl y disgwyliadau, gallai'r nifer hon o anifeiliaid dros gyfnod hir fod yn fygythiad. O'r herwydd, mae'n rhaid rheoli ychwanegiad pwysau pori pellach - er ei fod yn fath gwahanol - yn ofalus.

Roedd yr arolwg cyn gosod y giât yn newyddion gwych i'r safle o ran nifer, ystod a phrinder y rhywogaethau a ddarganfuwyd; fodd bynnag, tynnodd sylw at y risgiau posibl o ymgymryd â gwaith.

Mae mân rwystredigaeth wedi bod o ran y signal GPS nad yw'n fanwl gywir o dan y canopi, sy'n effeithio ar allu dod o hyd i bwyntiau ffoto fonitro, yn enwedig os yw gwahanol unigolion yn cyflawni'r dasg.

## Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Y nod cyffredinol yw cael cydbwysedd tymor hir, yn hytrach na'r llif cyfredol o or-bori a than-bori. Mae cysylltiad agos rhwng dyfodol Crafnant a rheoli geifr lled wyllt ar y Rhinogydd; nid oes unrhyw ffordd i'w gwahardd yn barhaol ac yn llwyr o'r safle.

Yn y tymor canolig, nifer fach o ferlod y Carneddau neu ferlod lled-wyllt brodorol tebyg yw'r ateb arfaethedig, i fyw ar y safle trwy gydol y flwyddyn. Bydd hyn yn dibynnu ar gyllid ôl-Brosiect, naill ai i borwr preifat barhau neu efallai i YBGGC ystyried prynu stoc. Nid yw perchnogaeth stoc gan sefydliadau anllywodraethol yn benderfyniad a ddylid ei wneud yn fyrbyll.

Yn y tymor hwy, bydd angen addasu lefelau pori yn ôl amodau'r hinsawdd a lefelau adfywio coetir sy'n ofynnol - gan newid pori tymhorol er mwyn caniatáu i goed ifanc dyfu ar, neu amddiffyn glasbrennau unigol. Er bod gwaharddiad pori llwyr yn opsiwn, yna mae'n hawdd iawn i'r arfer o bori ddod i ben, i borwr ddod o hyd i dir arall, i'r seilwaith ddirywio, ac i ail gyflwyno fod yn isel ar restr hir y tiffeddiannwr o dasgau pwysig.

Er bod y merlod Shetland presennol yn dod pan y'i gelwir, byddai dod o hyd i genfaint fach lled-wyllt yn cymryd llawer o amser a'u gwirio yn rheolaidd. Felly, bydd coler olrhain GPS yn cael ei gynnig i'r porwr ac fe'i hanogir i'w ddefnyddio.




## Crynodeb

	Coed Crafnant	Coed Dolbebin
Ardal bori (tua Ha)	20	27.7
Tymor	Trwy'r flwyddyn mewn cylchdro	Trwy'r flwyddyn mewn cylchdro
Nifer y merlod cyfredol neu ddiweddaraf	2	2
Uchafswm caniatâd ar gyfer niferoedd y merlod	5	5
Dwysedd stocio cyfredol (uned da byw / ha)	<0.1	<0.1
Uchafswm dwysedd stocio a gydsyniwyd (uned da byw / ha)	0.2	0.15
Canlyniad hyd yn hyn	Dechrau addawol ar gyfer cyflwr y safle ac iechyd y merlod	Effeithiau lleol yn unig



# COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU CELTIC RAINFORESTS WALES



Map o'r safle





Lloc eithriadig Coed Crafnant o fewn y rhedyn - a'r tywydd a all fod yn heriol o ran ffotograffiaeth!



Mae'r prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru wedi derbyn cyllid gan Raglen LIFE yr Undeb Ewropeaidd.